

Cwm Taf UHB

Dywedodd cleifion wrthym yn gyffredinol eu bod yn hapus gyda'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn.

Roedd staffio yn thema ar draws yr arolygiadau ysbyty ac iechyd meddwl.

Canfuwyd gennym fod gwelliant parhaus wedi cael ei wneud gan y bwrdd iechyd mewn nifer o feysydd yn ystod ein harolygiad dilynol o Ysbyty Cwm Rhondda.

Canfuwyd ymgysylltiad da rhwng y bwrdd iechyd a meddygfeydd teulu.



Ysbytai

- ✓

Dywedodd cleifion fod staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth
- ✓

Canfuwyd tystiolaeth gennym o arweinyddiaeth a rheolaeth dda ar lefel ward
- ✗

Roedd lefelau staffio a chadw staff yn broblem a oedd wedi cael ei huwchgwyfeirio gan staff wardiau
- ✗

Dywedodd rhai staff wrthym nad oeddent bob amser yn cael eu grymuso i leisio eu barn a chymryd camau pan fo problemau yn codi

Iechyd Meddwl

- ✓

Ar y ddwy ward a arolygwyd, bu cynnydd i lefelau staff nyrsio
- ✓

Gwaith tîm amlddisgyblaeth da a gweithio cydweithredol â thimau cymuned
- ✗

Problemau o ran cynnal a chadw'r amgylchedd,
- ✗

Diffyg cymorth llawn amser wrth gefn i staff domestig a therapi galwedigaethol, a oedd yn effeithio ar staff nyrsio
- ✗

Ni chafodd yr oergell feddyginiaeth ar un ward ei gloi a oedd yn golygu nad oedd cyffuriau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Meddygfeydd Teulu

- ✓

Ymgysylltu da rhwng y bwrdd iechyd a thimau meddygfeydd
- ✓

Roedd meddygfeydd wedi sylwi bod crynodebau rhyddhau o ofal eilaidd wedi gwella
- ✓

Roedd byrddau gwybodaeth yn y mwyafrif o feddygfeydd ar gyfer gofalywyr yn benodol, ac roedd gan y meddygfeydd arweinydd staff enwebedig ar gyfer gofalywyr
- ✓

Mewn un feddygfa, gwelsom ddefnydd arloesol o dechnoleg ar gyfer trefnu apwyntiadau nyrsys, e-ymgynghoriadau, a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer cleifion iau
- ✗

Effaith y defnydd uchel o feddygon teulu locwm ar barhad gofal i gleifion ar draws meddygfeydd a reolir y bwrdd iechyd
- ✗

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn dymuno gweld gwelliannau i'r profiad o drefnu apwyntiadau a gwell mynediad at apwyntiadau
- ✗

Mae angen gwella rhai agweddau ar y broses cadw cofnodion

Deintyddol

- ✓

Mae practisau yn asesu safbwyntiau cleifion fel mater o drefn, trwy ffurflenni adborth a holiaduron, ac yn cymryd camau ar eu sail
- ✓

Mae practisau yn darparu cyngor ar hybu iechyd y geg, sgrinio canser, a rhoi'r gorau i ysmegu yn gyson
- ✓

Roedd polisïau addas ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion, ac roedd y mwyafrif o staff wedi eu hyfforddi'n briodol
- ✗

Nid oedd dros hanner y practisau yn cymryd rhan mewn adolygiadau gan gymheiriaid
- ✗

Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella dogfennau a phrosesau cadw cofnodion yn y rhan fwyaf o bractisau